OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2880

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

## RHAN 3

Cofnodion a Chyhoeddi

### Cadw cofnodion

**8.**—(1) Rhaid i werthwr gadw cofnod cywir o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer pob blwyddyn adrodd.

(2) Rhaid i werthwr ddal gafael ar gofnodion am gyfnod o dair blynedd gan gychwyn ar 31 Mai yn y flwyddyn adrodd yn dilyn honno y mae cofnod yn berthnasol iddi.

(3) Yr wybodaeth yw—

(a) nifer y bagiau siopa untro a gyflenwir gan y gwerthwr sy'n denu'r tâl;

(b) y swm gros a gafwyd gan y gwerthwr drwy godi taliadau am fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl;

(c) enillion gros y tâl(**1**);

(ch) enillion net y tâl(**2**);

(d) dadansoddiad o sut y daethpwyd at y swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng enillion gros ac enillion net y tâl, gan gynnwys (yn benodol)—

(i) y dosraniad rhwng unrhyw TAW briodoladwy a chostau rhesymol;

(ii) y dosraniad rhwng pennau gwahanol o gostau rhesymol;

(dd) at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net a gafwyd o'r tâl.

(4) Y canlynol yw'r symiau penodedig at ddibenion y diffiniad o "*net proceeds of the charge*" ym mharagraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008(**3**)—

(a) swm unrhyw TAW briodoladwy;

(b) swm unrhyw gostau rhesymol.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "costau rhesymol" ("*reasonable costs*") yw—

(a) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;

(b) costau y mae gwerthwr yn rhesymol yn mynd iddynt i alluogi'r gwerthwr i gyfathrebu gwybodaeth am y tâl i gwsmeriaid;

mae i "TAW" yr ystyr a roddir i "*VAT*" yn adran 96 o Ddeddf Treth ar Werth 1994(**4**);

(**1**) I gael ystyr "*gross proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.
(**2**) I gael ystyr "*net proceeds of the charge*" *gweler* paragraff 7(4) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.
(**3**) 2008 p.27.
(**4**) 1994 p.23; mae diwygiadau i adran 96 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

ystyr "TAW briodoladwy" ("*attributable VAT*") yw'r TAW ar gyflenwad gan y gwerthwr o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

### Argaeledd cofnodion

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person a grybwyllir ym mharagraff (4) yn gwneud cais i werthwr yn ysgrifenedig i gyflenwi cofnod am flwyddyn adrodd.

(2) Os daw cais i law yn ystod y cyfnod y delir gafael ar y cofnod sydd o dan sylw, rhaid i'r gwerthwr ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r person a wnaeth gais amdano o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael y cais ysgrifenedig.

(3) Y cyfnod dal gafael yw'r cyfnod o dair blynedd y mae'n rhaid dal gafael ar unrhyw gofnod penodol o dan reoliad 8(2).

(4) Y personau yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) aelod o'r cyhoedd.

### Cyhoeddi cofnodion

**10.**—(1) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar gyfer blwyddyn adrodd os bodlonir yr amodau ym mharagraff (2) gan y gwerthwr mewn perthynas â'r flwyddyn adrodd o dan sylw.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod y gwerthwr yn berson trethadwy at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994;

(b) bod y gwerthwr yn cyflenwi 1000 neu fwy o fagiau siopa untro sy'n denu'r tâl.

(3) Rhaid i werthwr gyhoeddi'r cofnod ar neu cyn 31 Mai yn y flwyddyn adrodd sy'n dilyn honno y mae'r cofnod yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i'r cofnod barhau i fod wedi ei gyhoeddi hyd at 31 Mai yn y flwyddyn adrodd ddilynol.

(5) Rhaid i'r cyhoeddi fod yn y dull a ganlyn—

(a) ar wefan y gwerthwr; neu

(b) drwy arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y cofnod yn holl fangreoedd y gwerthwr yng Nghymru y mae gan gwsmeriaid fynediad iddynt.

(6) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod ar ei wefan—

(a) rhaid i'r cofnod gael ei arddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr; neu

(b) os yw'r cofnod i gael ei arddangos yn rhywle arall ar wefan y gwerthwr, rhaid i ddolen i'r cofnod gael ei harddangos yn amlwg ar dudalen gartref y gwerthwr.

(7) Os bydd gwerthwr yn cyhoeddi'r cofnod yn y dull a ddisgrifir ym mharagraff (5)(b), rhaid i'r hysbysiad gael ei arddangos mewn lle amlwg, fel bod cwsmeriaid yn gallu ei weld yn eglur ac yn gallu ei ddarllen.